Dolen LESOTHO CYMRU

Caredigrwydd neu Undod

Taith

Meddwl am y Dyfodol

Dysgu drwy gysylltiadau rhyngwladol ymhen 40 a 200 mlynedd

Caredigrwydd neu Undod (agweddau a’u gweithredoedd)

CYNNWYS:

1. Hawliau Plant yng Nghymru
2. Hawliau Plant yn Lesotho
3. Hawliau ar Waith yng Nghymru
4. Hawliau ar Waith yn Lesotho
5. Gofal Iechyd yng Nghymru
6. Iechyd a HIV yn Lesotho
7. Band Aid
8. Podlediadau

Sganiwch y cod QR neu cliciwch isod i weld y Padlet Caredigrwydd neu Undod - ychwanegwch waith eich disgyblion ac ymunwch â’n cymuned fyd-eang o arweinwyr

SCAN ME



Cydnabyddiaethau
Wedi’i ddatblygu mewn partneriaeth â Taith a Dolen Cymru Lesotho, mae'r adnodd hwn wedi’i seilio ar leisiau a phrofiadau bywyd cymunedau, addysgwyr, a phobl ifanc yng Nghymru a Lesotho. Wedi’i ariannu gan Lywodraeth Cymru 2025-6.

Dolen LESOTHO CYMRU

Taith

Caredigrwydd neu Undod

Cyflwyniad - Dosbarthiadau CA2

1 / 30

SLEIDIAU CY 2

Caredigrwydd neu Undod (agweddau a'u gweithredoedd)

Cliciwch isod ar gyfer Pecynnau Athrawon Blwyddyn 4 i 11

CA2

CA3

CA4

Hawliau Plant yng Nghymru

“Through my story I want to tell other children all around the world that they should stand up for their rights.”

Malala Yousafza

Mae gan blant a phobl ifanc 42 o hawliau dan **Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)**.

Mae’r 42 hawl yma wedi rhoi yr hyn sydd ei angen ar blant a phobl ifanc i dyfu i fyny’n teimlo’n hapus, yn iach ac yn ddiogel. Yn 2011 daeth Cymru i fod y wlad gyntaf yn y DU i wneud CCUHP yn rhan o’i chyfraith ddomestig.

Wedi’i sefydlu yn 2016, mae panel cynghori'r bobl ifanc yn cynnwys 45 aelod sy’n blant a phobl ifanc rhwng 11 a 18 oed. Mae ganddynt dri chyfarfod diwrnod llawn y flwyddyn. Mae'r panel yn dwyn y **Comisiynydd Plant dros Gymru** i gyfrif o ran cyflawni cynlluniau gwaith blynyddol a thair blynedd

https://www.childcomwales.org.uk/uncrc-childrens-rights/

Caredigrwydd neu Undod

Mae Dull Hawliau’r Plentyn yn golygu y bydd:

Sefydliadau’n blaenoriaethu hawliau plant yn eu gwaith gyda phlant a theuluoedd er mwyn gwella bywydau plant

- Mae pob plentyn yn cael y cyfleoedd i wneud y gorau o'i dalentau a’i botensial
- Mae pob plentyn yn cael y wybodaeth a'r adnoddau i’w galluogi i gymryd mantais lawn o’i hawliau
- Mae pob plentyn yn cael cyfle ystyrlon i ddylanwadu ar benderfyniadau ynglŷn â’i fywyd
- Mae awdurdodau ac unigolion yn atebol i blentyn o ran penderfyniadau, ac o ran canlyniadau sy’n effeithio ar fywyd plentyn



www.unicef.org.uk

Addysg ac Iechyd

Mae gan blant a phobl ifanc yn y DU yr hawl i addysg gynradd ac uwchradd. Rhoddwyd yr hawl i blant anabl gymryd rhan mewn addysg ym 1970. Mae gan blant yr hawl i dderbyn cefnogaeth ychwanegol mewn addysg, a dylai plant, pobl ifanc a rhieni fod yn rhan o'r broses addysgu.

Mae Dechrau'n Deg yn rhaglen gan Lywodraeth Cymru sy'n darparu gwasanaethau estynedig i gymunedau sydd dan anfantais yng Nghymru. Nod y rhaglen yw rhoi'r cyfle gorau posib mewn bywyd i bob plentyn yng Nghymru drwy ganolbwyntio ar feysydd allweddol datblygiad plentyndod cynnar. Mae mynediad at Dechrau'n Deg wedi'i fwriadu ar gyfer plant 0-3 oed.

Mae nifer o blant yn dechrau ysgol feithrin yn 3 oed. Cyflwynodd Cymru gynllun gofal plant am ddim lle all teuluoedd hawlio ar gyfer 30 awr o ofal plant yn 3 oed, mae'n rhaid i 12.5 awr fod yn addysgiadol a gall y gweddill fod mewn lleoliad gofal plant cofrestredig.

O 5 oed ymlaen mae'n orfodol i blant fynychu lleoliad addysg (gan gynnwys addysgu gartref cofrestredig). Mae yna swyddogion lles addysg sy'n gyfrifol am fonitro presenoldeb plant.

Pan maent yn 11 oed bydd plant yn mynd i ysgol uwchradd/gyfun. Maent yn gweithio tuag at eu cymwysterau TGAU yn yr ysgol uwchradd. Yn 16 oed mae gan blant y dewis i adael ysgol neu gallant barhau i'r chweched dosbarth neu i goleg chweched dosbarth (lefel A neu BTEC fel arfer)

Mae Gwobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau yn rhaglen UNICEF UK sydd â'r nod o roi hawliau plant wrth galon ein hysgolion yn y DU. Mae'r ysgolion yn gweithio gydag UNICEF ar daith i ddod yn ysgol sy'n Parchu Hawliau yn gyfan gwbl. Mae'r Wobr yn cydnabod cyflawniad yr ysgol o ran rhoi Conffederasiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) ar waith o fewn yr ysgol a thu hwnt. Mae gan blant yr hawl i gymryd rhan, felly mae ymwneud ystyrlon plant a phobl ifanc yn hanfodol ar bob cam o'ch siwrnai Gwobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau.

https://www.nhs.wales

Rhaglen Plant Iach Cymru

Mae'r rhaglen hon yn sicrhau cefnogaeth iechyd ar gyfer plant rhwng 0-7 oed. Mae'n cynnwys ymweliadau wedi'u hamserlennu gan fydwragedd, ymwelwyr iechyd a'r nyrs ysgol. Yn ogystal â brechiadau arferol a'r chwistrelliad ffliw (sy'n cael ei annog ar ddisgresiwn y rhieni).

Mae gofal meddygol yng Nghymru am ddim o dan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) ac mae'n cynnwys apwyntiadau doctor, presgripsiynau, ymweliadau brys a rheolaidd â'r ysbyty neu driniaethau a llawdriniaethau meddygol. Mae cael sbectols a deintyddiaeth hefyd yn gynwysedig yn hyn ar gyfer plant hyd at 18 oed. Fodd bynnag, oherwydd y pwysau ar y GIG mae gan lawer o adrannau'r GIG restrau aros hir a all arwain at ohiriadau. Mae hyn yn arbennig o wir am atgyfeiriadau niwroddatblygiadol. Crëwyd y rhwydwaith iechyd plant yn 2024 gyda'r nod o wella ansawdd, cynaliadwyedd a chanlyniadau gwasanaethau'r GIG ar gyfer plant a phobl ifan phobl ifanc yng Nghymru

GIG CYMRU NHS WALES

Hawliau Plant yn Lesotho

Bana

Rolau a chyfrifoldebau traddodiadol:

- O oedran ifanc, roedd plant yn cael cyfrifoldebau dyddiol penodol.
- Roedd y bechgyn yn cael y dasg o fugeilio geifr y teulu, ac wrth iddynt dyfu'n hŷn, roedden nhw hefyd yn bugeilio gwartheg.
- Roedd merched yn helpu eu mamau gyda'u dyletswyddau o amgylch y cartref.
- Roedd cyfrifoldebau merched, a oedd yn newid gyda'r tymor a'u statws cymdeithasol, yn aml yn fwy trwm na rhai'r dynion.

"Our children are our greatest treasure. They are our future."

Nelson Mandela



http://creativecommons.org/publicdomain/zero/1.0/deed.en

Mae hawliau plant yn cael eu hamddiffyn gan y gyfraith yn Lesotho. Mae Mesur Diogelu a Lles Plant 2009 yn benodol yn mynd i'r afael â gwarchod plant. Yn ogystal, mae Deddf Gwarchod Plant 1980 yn darparu mesurau diogelu ar gyfer plant sydd angen gofal, yn cwmpasu ystod eang o sefyllfaoedd a all fod yn hanfodol i'w budd a'u lles. Er bod y gyfraith yn pennu bod penderfyniadau angen eu cymryd er mwyn gwarchod buddiannau'r plentyn, nid yw'r polisi hwn yn aml yn cael ei ddilyn yn ymarferol.

Mae Llywodraeth Lesotho wedi cadarnhau nifer o gyfryngau rhyngwladol sy'n gwarchod hawliau plant, gan gynnwys Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plant, Siarter Affrica ar Hawliau a Lles y Plentyn, a Chonfensiwn y Sefydliad Llafur Rhyngwladol (ILO) 138 ar isafswm oed ar gyfer cyflogaeth, yn ogystal â Chonfensiwn ILO 182 ar y ffurfiau gwaethaf o lafur plant.

Fodd bynnag mae 58% o boblogaeth Lesotho'n byw mewn tlodi, sy'n achosi bygythiad sylweddol i wireddu hawliau plant yn llawn, gan fod tlodi yn brif ffactor sy'n effeithio ar fywydau'r rhan fwyaf o blant Basotho.

Caredigrwydd neu Undod

Addysg, Iechyd a Llafur Plant

Mae HIV ac AIDS yn cael eu cydnabod fel y bygythiad mwyaf sylweddol i ddatblygiad yn Lesotho, sydd â'r ail gyfradd uchaf o'r haint HIV yn fyd-eang.

Yn ogystal mae 110,000 o blant wedi eu gwneud yn amddifad oherwydd pandemig AIDS.

Yn ôl astudiaethau, mae HIV ac AIDS yn brif achos y gostyngiad sylweddol yn incwm yr aelwyd i lawer o'r boblogaeth. Mae colli'r prif un sy'n ennill cyflog, p'un a yw hynny drwy salwch neu farwolaeth, yn cynyddu'r llwyth gwaith i blant.

Mewn ymateb i'r argyfwng hwn, mae Lesotho wedi mabwysiadu rhaglen genedlaethol o weithredu er mwyn cynyddu'r ymdrechion yn erbyn HIV ac AIDS.

Dolen Cymru *Lesotho*

Mae'r gyfraith yn gwahardd cyflogi plant o dan 15 oed ac mae'n gosod cyfyngiadau ar gyflogi rhai sydd o dan 18.

Er gwaetha'r rheoliadau hyn, mae plant yn gweithio yn parhau i fod yn broblem ddifrifol. Yn fwyaf nodedig, nid yw cyfreithiau llafur plant yn ymestyn i'r sectorau anffurfiol ac amaethyddol. Yn ôl UNICEF, mae tua 23% o blant oedran 5 i 14 oed yn cael eu cyflogi yn y sector anffurfiol, sy'n cynnwys busnesau bach teuluol, gwaith domestig, a gweithgareddau fferm, yn enwedig bugeilio.

Mae llawer o blant hefyd yn treulio cryn dipyn o amser yn gwneud dyletswyddau fel casglu tanwydd a dŵr ar gyfer eu teuluoedd, ac yn aml yn ceisio cadw cydbwysedd rhwng y tasgau hyn a'u presenoldeb yn yr ysgol.

Mae Cyfansoddiad Lesotho yn cydnabod yr hawl I addysg fel rhywbeth sy'n hanfodol i bob plentyn sy'n byw yn y wlad. Yn ôl Adran 28 o'r Cyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Llywodraeth sicrhau bod plant Basotho yn derbyn addysg o safon ar bob lefel.

Mae Adran 28 yn nodi: "*Bydd Lesotho yn ymdrechu i wneud addysg ar gael i bawb a bydd yn mabwysiadu polisïau sydd â'r nod o sicrhau bod addysg yn datblygu potensial llawn y cymeriad dynol ac yn meithrin urddas wrth atgyfnerthu parch ar gyfer hawliau dynol a rhyddid hanfodol*". Mae addysg gynradd yn orfodol ac ar gael i bawb, fodd bynnag, mae nifer o rieni, yn arbennig rhai sy'n ddi-waith yn ei chael hi'n galed i allu fforddio addysg uwchradd.

https://creativecommons.org/licenses/by-sa/4.0

Dolenni Pellach

Hawliau Plant yng Nghymru

Hawliau Plant Hawliau Plant - Comisiynydd Plant Cymru

https://youtu.be/CJPZ_31njq4

Article of the Week - planner - Rights Respecting Schools Award

Sgowtiaid a Geidiaid: Her Hawliau - Comisiynydd Plant Cymru

Rights Respecting School Teaching Resources -UNICEF UK

Hawliau Plant yn Lesotho

Children of Lesotho -Humanium

Adnoddau addysg ar hawliau plant

Creating Child-Friendly Justice: Launch of Five Rehabilitated Children's Courts -Lesotho News

Big Changes Ahead for Children in Lesotho –Uncensored news

Children’s Parliament Session

Cymdeithas Geidiaid (Adnoddau a Gweithgareddau)

Hawliau ar Waith, Cymru

Ym 1948, mabwysiadodd Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol, ac mae'r ddogfen bwysig hon yn nodi'r hawliau y mae pawb â'r hawl i'w cael waeth beth fo'u hil, lliw, crefydd, rhyw, iaith, barn wleidyddol neu farn arall, tarddiad cenedlaethol neu gymdeithasol, eiddo, genedigaeth neu statws arall.

Ers hynny, mae llywodraeth Cymru a llywodraeth y DU wedi cofrestru i ystod o gytundebau hawliau dynol rhyngwladol. Y mwyaf arwyddocaol yw'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol sy'n gwarchod yr hawl i fyw, rhyddid, bywyd preifat a bywyd teulu, rhyddid i ymgynnull a rhyddid i fynegi, ymhlith eraill.

Mae'r hawliau yn berthnasol yng Nghymru a'r DU drwy Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus (fel awdurdodau lleol, gwasanaethau iechyd a'r heddlu) barchu a gwarchod yr hawliau hyn ym mhob agwedd ar eu gwaith. Mewn achos o dorri rheolau'r confensiwn, gall unigolion herio'r hawliau hyn drwy'r llysoedd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd nifer o gamau i gyfoethogi a chryfhau hawliau pobl sy'n byw yng Nghymru. Yn 2024, comisiynodd Llywodraeth Cymru ymchwil mewn perthynas â Chymru. Drwy'r adroddiad ymchwil, cynigiwyd argymhellion i Lywodraeth Cymru a sefydliadau eraill y sector cyhoeddus er budd unigolion.

Caredigrwydd neu Undod

Anabledd

https://creativecommons.org/licenses/by-sa/4.0

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Gynllun Hawliau Pobl Anabl 2025**, sydd â'r nod o hyrwyddo hawliau a chyfrifoldebau pobl anabl yng Nghymru, gan oresgyn y rhwystrau a herio'r rhagfarn a'r gwahaniaethu maen nhw'n ei wynebu.

Mae hawliau dynol yng Nghymru yn dyddio'n ôl i'r flwyddyn 945 pan gyhoeddwyd deddfau Hywel Dda.

Mae'r cynllun deng mlynedd yn gosod uchelgais am Gymru lle all pobl anabl fwynhau hawliau teg, cynhwysiant a chyfranogiad. Wrth galon y dull gweithredu hwn mae'r Model Cymdeithasol o Anabledd, sy'n ein helpu ni i ddeall sut all pobl anabl gael eu dal yn ôl gan y byd sydd o'u cwmpas, a sut allwn ni wneud y byd yn lle haws i bawb fod yn rhan ohono. Mae hefyd wedi'i arwain gan egwyddorion a rhwymedigaethau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl. Gall y rhwystrau mae pobl anabl yn eu hwynebu amrywio o adeiladau a gwasanaethau anhygyrch nad ydynt wedi'u haddasu i fodloni eu hanghenion i agweddau rhai pobl sydd o'u cwmpas. Rydym wedi ymrwymo i barhau i ddiddymu'r rhwystrau hyn er mwyn creu cymdeithas gynhwysol a hygyrch i bawb. Wedi dweud hynny, mae rhai wedi beirniadu'r cynllun oherwydd diffyg targedau mesuradwy.

https://www.gov.wales/disabled-peoples-rights-plan-2025-2035-html

Hawliau Merched



https://creativecommons.org/licenses/by-sa/4.0

Dethlir **Diwrnod Rhyngwladol y Merched** ar 8fed Mawrth bob blwyddyn, gan gydnabod cyflawniadau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol, a gwleidyddol merched. Mae hefyd yn alwad i weithredu dros wella cydraddoldeb rhwng y rhywiau. Mae'r diwrnod hwn wedi'i ddathlu ers dros ganrif, gyda'r cynulliad cyntaf yn digwydd ym 1911. Dechreuodd y Cenhedloedd Unedig ddathlu'r digwyddiad ym 1975, ac mae'n parhau i hyrwyddo hawliau merched a grymuso ledled y byd.

Chwarae Teg

Mae'r grŵp **Cydraddoldeb Rhwng y Rhywiau yng Nghymru, Chwarae Teg**, wedi llunio adolygiad pum mlynedd (2023) sy'n dangos ychydig o gynnydd, neu ddim cynnydd o gwbl, o ran gwella tâl, hawliau i weithio a diogelwch mewn cymdeithas i ferched.

Er gwaethaf cynnydd bach mewn cyflogau i ferched ers yr adroddiad gwreiddiol yn 2019, dywed fod bwlch tâl rhwng y rhywiau yn parhau i fod yn 11.3% yng Nghymru. Yn ôl yr adroddiad, mae merched yn dal i fod yn llawer llai tebygol o fod mewn gwaith na dynion, ac mae mwy o ferched wedi'u heithrio rhag y farchnad lafur oherwydd pwysau gofalu am aelodau'r teulu.

Mae yna rai camau cadarnhaol wedi'u gwneud dros y bum mlynedd ddiwethaf, yn enwedig gyda mwy o Aelodau Seneddol a chynghorwyr sy'n fenywod yn cael eu hethol, ond mae'r gynrychiolaeth ym myd gwleidyddiaeth yn dal i fod yn llawer is na 50%. Prif bryder yr elusen yw bod y peryglon mae merched yn eu hwynebu, nid o ran trosedd yn unig ond hefyd caledi ariannol, yn parhau i fod yn anghymesur o uchel

LHDTCRhA+

Lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsrywiol, cwiar (neu’n cwestiynu weithiau), rhyngrywiol, arywiol, ac eraill. Mae'r arwydd “plws” yn cynrychioli mathau eraill o hunaniaeth rywedd, yn cynnwys panrywiol a Dau Enaid. Nod **cynllun gweithredu LHDTC+ Cymru (2023)** yw Gwella dealltwriaeth hawliau dynol pobl LHDTC+ a gwarchod yr hawliau hynny.

Mae hyn yn cynnwys:

- Gwahardd Arferion Trosi i Bobl LHDTC+.
- Gwneud Cymru yn Genedl Noddfa ifudwyr LHDTC+
- Cynyddu nifer y bobl LHDTC+ sydd ynghlwm â grwpiau neu brosiectau yn ymwneud â chydraddoldeb
- Gofyn i Lywodraeth y DU gyflwyno deddf Cydnabod Rhywedd yng Nghymru. Golyga hyn y gallai Cymru basio deddfau ac y byddai’n haws i bobl draws gael cydnabyddiaeth o’u rhywedd yn gyfreithiol ym mhob agwedd ar eu bywydau.
- Cynnwys grwpiau LHDTC+ fwy wrth gynllunio gwasanaethau cyhoeddus
- Ei gwneud hi’n haws i bobl LHDTC+ adrodd trosedd gasineb
- Gwneud mwy er mwyn atal troseddau casineb rhag digwydd ledled Cymru
- Targedu trais yn erbyn merched ac ymhlith cymunedau LHDTC+.
- Sicrhau bod gwasanaethau digartref yn cefnogi anghenion pobl LHDTC+
- Gwella profiad pobl LHDTC+ yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, perthnasoedd a’r heddlu
- Sicrhau bod cynlluniau newydd ar gyfer iechyd meddwl yn cynnwys pobl LHDTC+
- Gwella mynediad at wasanaethau iechyd rhyw
- Rhoi arweiniad i ysgolion ac awdurdodau lleol mewn perthynas â phlant a phobl ifanc drawsrywiol
- Cefnogi pobl ifanc LHDTC+ a mynd i'r afael â'r bwlio maen nhw’n ei wynebu

PRIDE CYMRU

Mae Pride Cymru yn elusen sy’n cael ei harwain gan wirfoddolwyr sy’n gweithio i hyrwyddo gwarediad gwahaniaethu, boed hynny ar sail cyfeiriadedd rhywiol, rhywedd, hil, crefydd neu allu.

Dros ddau ddiwrnod ym mis Mehefin, mae Pride Cymru yn croesawu 50,000 o bobl i Gaerdydd, prifddinas Cymru, er mwyn codi ymwybyddiaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth ac i gefnogi LHDTC+. Mae yna ddigwyddiadau pride yn cael eu cynnal mewn dinasoedd ledled Cymru hefyd.

Mae Just Like Us yn elusen sy’n gweithio gydag ysgolion i roi sgyrsiau wedi’u traddodi gan lysgenhadon, oedolion ifanc LHDT+ rhwng 18 a 25 oed, sy’n cynnig cynrychiolaeth ddilys, ystyrlon all disgyblion ysgol uniaethu â nhw.
Mae llysgenhadon yn rhannu eu straeon eu hunain o dyfu i fyny fel rhywun LHDT+, gan ddefnyddio adrodd straeon fel adnodd i ymgysylltu disgyblion a rhannu negeseuon allweddol, y mae modd gweithredu arnynt. Maen nhw hefyd yn cynnig sesiwn holi ac ateb ryngweithiol, gan feithrin man calonogol a diogel i ddisgyblion ofyn cwestiynau i bobl sydd â phrofiad bywyd ac ennill dealltwriaeth well.

Hawliau ar Waith, Lesotho

Anabledd

Cyfansoddiad Lesothoyw'r ddeddfsylfaenolsy'n llywodraethu Teyrnas Lesotho.Mae'n darparuffram waith cyfreithiolar gyferstrwythur y llywodraeth ac yn gosod yr hawliau sydd wedi'u gwarantu i ddinasyddion. Mabwysiadwyd y Cyfansoddiad ym 1993.

Pennod 2: Gwarchod Hawliau Dynol a Rhyddid Sylfaenol Yn gwarantu hawliau a rhyddid penodol i ddinasyddion, sy'n gwasanaethu fel bil hawliau. Mae dinasyddion wedi'u gwarantu â'r hawl i fyw, rhyddid personol, a chydraddoldeb drwy'r gyfraith. Yn ogystal, mae'r Cyfansoddiad yn sicrhau rhyddid rhag triniaeth annynol, caethwasiaeth, chwiliad mympwyol, atafaelu eiddo, a gwahaniaethu. Yn ogystal, mae dinasyddion wedi'u gwarantu â'r rhyddid i symud, llefaru, cysylltiad, a chydwybod. Mae'r adran hon yn nodi'n benodol bod gan bob unigolyn yn Lesotho yr hawl i'r gwarantau hyn, waeth beth fo'u hil, rhyw, iaith, crefydd, barn wleidyddol, cenedligrwydd, ac eiddo

Fis Hydref 2022, dywedodd y Pennaeth Cyfiawnder Sakoane Sakoane: "Caniatewch i mi ddechrau yn gyntaf gyda phobl anabl gan fod eu cydnabyddiaeth a'u diogelwch wedi'u derbyn yn eang ac wedi'u cyfundrefnu gan Gonfensiwn Hawliau Pobl Anabl y Cenhedloedd Unedig. Felly, mae Erthygl 12 yn rhoi diogelwch cyfartal iddyn nhw drwy'r gyfraith. Golyga hyn eu bod yn mwynhau'r un capasiti cyfreithiol â phobl eraill nad ydynt yn anabl. Mae hwn yn newid paradeim o bobl eraill yn gwneud penderfyniadau i wneud penderfyniadau gyda chefnogaeth. Mewn system lle mae'r penderfyniadau yn cael eu dirprwyo, mae trydydd person wedi'i ddirprwyo i wneud penderfyniadau, ond yn achos gwneud penderfyniadau gyda chefnogaeth, dim ond cefnogi'r penderfyniadau gan unigolyn anabl mae'r trydydd person. Yr unigolyn anabl sydd â'r capasiti llwyr i wneud penderfyniadau a dylid ei alluogi a'i gefnogi yn hynny o beth.

Caredigrwydd neu Undod

Sefydlwyd ym 1989, mae **Lesotho National Federation of Organisations of the Disabled (LNFOD)** yn gorff ymbarél sefydliadau sy'n ymdrin ag anabledd yn Lesotho.
Mae'r aelodau yn cynnwys -Organisations of Persons with Disabilities (ODPs), Albino Aid Multipurpose Association (AMA), Deafblind Association of Lesotho (DBAL), Intellectual Disability and Autism Lesotho (IDAL) a adnabuwyd gynt fel y Lesotho society of mentally handicapped persons (LSMHP), Lesotho National Association of the Physically Disabled (LNAPD), Lesotho National League of the Visually Impaired Persons (LNLVIP), a National Association of the Deaf Lesotho (NADL).
Cenhadaeth y ffederasiwn yw hyrwyddo hawliau unigolion anabl a'u teuluoedd drwy eiriolaeth, cefnogaeth, a phartneriaethau, gan sicrhau eu bod yn byw bywydau gwerth chweil ac wedi'u grymuso. Maen nhw'n credu mewn dull yn seiliedig ar hawliau dynol mewn perthynas ag anabledd a chynhwysiant cymdeithasol.

Yn 2008, daeth Lesotho yr 42ain wlad i gadarnhau Confensiwn Hawliau Pobl y Cenhedloedd Unedig.

Hawliau Merched

Ym mis Chwefror-Mawrth 2022, cyfwelodd y tîm Afrobarometer yn Lesotho â sampl genedlaethol gynrychioladol o 1,200 o ddinasyddion. Dyma'r prif ganfyddiadau:

Dywed oddeutu 8 ym mhob 10 yn Basotho (79%) y dylai bod gan ferched yr un hawliau â dynion o ran bod yn berchen ar dir, a'i etifeddu. Dywed mwyafrif llai (59%) – a dim ond 48% o ddynion – y dylai bod gan ferched yr un hawliau â dynion o ran ennill swyddi â chyflog.

Dywed 7 ym mhob 10 dinesydd bod merched a dynion yn cael yr un hawliau o ran swyddi (71%) a thir (71%) fel mae hi yn Lesotho heddiw.

Dywed bron i ddau draean (63%) o bobl Basotho – gan gynnwys mwyafrif bach (53%) o ddynion – y dylai bod eu merched yn cael yr un hawliau â'u meibion o ran olyniaeth i benaduriaeth.

Yn Lesotho, mae dynion ar ôl merched o ran cyflawniadau addysgol, gyda llai ohonynt yn mynd i ysgol uwchradd a chyfran uwch â diffyg addysg ffurfiol yn gyfan gwbl.

Mae merched a dynion fwy neu lai yn gyfartal o ran bod yn berchen ar ffôn symudol, radio, teledu, cerbyd modur, a chyfrifiadur, ond mae mwy o ddynion na merched yn berchen ar gyfrif banc (42% yn hytrach na 37%).



X.com

NAIRASHA LEGAL SUPPORT

Mae **Nairasha Legal Support**, sef menter gyfreithiol gymdeithasol ar lawr gwlad sydd â natur ffeministaidd arloesol ac wedi'i harwain gan ferched yn Lesotho, wedi ymrwymo i hybu newid trawsnewidiol o fewn cymunedau sydd wedi'u heffeithio gan drosedd rywiol a throsedd yn seiliedig ar rywedd. Wedi'i sefydlu gan ymrwymiad diflino i hyrwyddo cyfiawnder, hawliau dynol a chydraddoldeb rhywedd. Mae Nairasha Legal yn gweithredu ar y gred sylfaenol bod pob merch a geneth yn haeddu eu gwarchod, eu parchu a chael mynediad cyfartal at atebolrwydd cyfreithiol waeth beth fo'u statws economaidd, lleoliad daearyddol neu lefel eu gwybodaeth. Wrth galon cenhadaeth gyfreithiol Nairasha mae'r natur benderfynol ddi- ildio i gael gwared ar y rhwystrau sy'n gwneud merched a genethod yn fregus ac yn amharu ar eu gallu i fwynhau eu hawliau dynol yn llawn.

LHDTCRhA+

Lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsrywiol, cwiar (neu'n cwestiynu weithiau), rhyngrywiol, arywiol, ac eraill. Mae'r arwydd 'plws' yn cynrychioli mathau eraill o hunaniaeth rywedd, yn cynnwys panrywiol a Dau Enaid.

Sefydlwyd y People's Matrix Association yn 2008 fel Sefydliad Anllywodraethol unigryw. Mae'r sefydliad yn gyfrifol am greu amgylchedd galluogi i bobl sydd â chyfeiriadau rhywiol, hunaniaethau rhywedd a mynegiadau rhywedd amrywiol drwy hyrwyddo unoliaeth, undod, cydlyniad a chydweithredu ymhlith pobl LHDTCRhA+

yn Lesotho yn ogystal â datblygu partneriaethau newydd yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn fyd-eang.

Cafodd cyfunrhywiaeth ei ddad-droseddoli yn 2012. Wedi dweud hynny, dan Ddeddf Priodas Rhif 10 1974 a deddf arferol Lesotho, caniateir priodas rhwng cyplau o ryw gwahanol yn unig.

Yn 2013. Mae'r penderfyniad yn condemnio trosedd a thorri hawliau dynol yn erbyn pobl ar sail cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rywedd go iawn neu briodoledig.

Mae Deddf Llafur 2024 yn gwahardd gwahaniaethu yn seiliedig ar gyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rywedd. Cynhaliodd cymunedau LHDTRhC Basotho Orymdaith Pride gyntaf y wlad yn 2013, y mae trefnwyr a chyfranogwyr wedi'i alw'n llwyddiant.

Ers dechrau 2025, mae eiriolwyr pobl draws wedi gwneud cynnydd sylweddol gyda deddfwyr a swyddogion eraill y llywodraeth, y mae materion pobl draws wedi dod yn fwy derbyniol yn eu plith, gyda golwg ar sefydlu cydnabyddiaeth rywedd gyfreithiol

Pride yn Lesotho: Dolen Cymru

Crynhodd Pennaeth Cyfiawnder Lesotho, Sakoane Sakoane, y prif ddatblygiadau cyfreithiol o ran gwarchod hawliau dynol pobl LHDTRhC, a phwysleisio pwysigrwydd sicrhau mynediad at gyfiawnder ar gyfer cymunedau ymylol yn Affrica, yn cynnwys pobl LHDTRhC. Gan alw am "ymdriniaeth â diwylliant sensitif LHDTRhC" nododd Giselle Ratalane o The People's Matrix, grŵp eiriolaeth LHDTRhC lleol: "Mae angen deddfwriaeth gadarn a chlir sy'n gwarchod buddiannau lleiafrifoedd fel bod troseddau yn erbyn hawliau dynol [pobl LHDTRhC] yn cael eu mynegeio'n gywir mewn, cofnodion cenedlaethol

Dolenni Pellach

Hawliau ar Waith,Cymru

Adnoddau hawliau gan Amnesty International

Adnoddau addysg yn cyflwyno hawliau dynol Adnoddau addysg hawliau merched Pecyn gweithgareddau hawliau LHDTRh

Adnoddau Hawliau Merched Hawl Pleidleisio i Ferched, fideo a phecyn adnoddau - Pecyn Cymorth Grymuso Merched Addysg Senedd y DU

Canolfan Adnoddau Merched

Podlediad LHDTCRhA+ Ffrydiwch The Scott McGlynn Show | Gwrandewch arbenodau'r podlediad ar-lein

Braint, Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Myfyrwyr yn Dysgu Gwers Bwerus ynghylch Braint

Cydraddoldeb, Tegwch, a Chyfiawnder Cymdeithasol - YouTube

Hawliau ar Waith, Lesotho

Cyfansoddiad Lesotho

Adnoddau Dylunio'r ganolfan IDAL|diweddariad gan rise

AD571-Basotho-endorse-gender-equality-including-right-of-a-princess-to-succeed-as-chief-Afrobarometer-8nov22.pdf

Cydraddoldeb, Tegwch, a Chyfiawnder Cymdeithasol - YouTube

Cyfweliad gan Catherine Moulogo (Dolen Cymru) a Giselle Ratalane (The People's Matrix)

Gofal Iechyd yng Nghymru

Yn ystod Oes Fictoria, roedd ysbyty yn golygu gwahanol bethau i bobl o wahanol ddosbarthiadau cymdeithasol. Roedd y rheini a oedd yn gallu fforddio meddyg preifat yn cadw draw ar bob cyfrif bron iawn oherwydd y cysylltiad â thlodi. Roedd pob ysbyty, clafdy wyrcws neu ysbytai gwirfoddol elît yn sefydliadau wedi'u sefydlu a'u hariannu gan y dosbarthiadau canol ac uwch er mwyn bodloni anghenion llesiant meddygol y boblogaeth dosbarth gweithiol. Ym 1895, penodwyd yr elusennwr cyntaf yn y Royal Free Hospital yn Llundain a'i dasg oedd asesu'r rhai a oedd yn mynd i'r ysbyty i gael triniaeth. Dywedwyd wrth rai eu bod yn rhy gefnog ac y dylid eu trin yn breifat, gofynnwyd i eraill wneud cyfraniad ariannol i'r ysbyty ac fe gafodd y rhai a oedd yn weddill driniaeth yn rhad ac am ddim ond fe'u hargymhellwyd i ymuno â chynllun cynilion cymunedol er mwyn sicrhau y gallent dalu eu ffordd yn y dyfodol. Dechreuodd system dalu'r elusennwr ar ôl y rhyfel, ac ynghyd â hynny y cyflwynwyd yr arfer o wahanu cleifion dosbarth canol, gan eu trin yn aml ar lawr gwahanol neu mewn adeilad gwahanol er mwyn sicrhau nad oedd y ddarpariaeth ar gyfer y tlodion sâl dan ormod o bwysau. Ar gyfer y rhan fwyaf o bobl, fodd bynnag, byddai ffi'r meddyg o oddeutu chwe cheiniog wedi bod y tu hwnt i'w modd, ac felly roedd dau gynllun yn cynnig opsiwn arall i gleifion dosbarth gweithio.

1.Ym 1911, cyflwynwyd yr elfen yswiriant iechyd, sef yswiriant gorfodol a fyddai'n rhoi hawl i weld meddyg. 2.Gallai pobl hefyd dalu i mewn i aelodaeth o gronfa cymorth meddygol neu glwb meddygol a byddant yn cael mynediad at feddyg heb orfod gweld yr elusennwr oherwydd eu bod wedi talu ymlaen llaw.

Caredigrwydd neu Undod

"Ni all unrhyw gymdeithas alw ei hun yn gyfreithlon yn sifil os gwrthodir cymorth meddygol i berson sâl oherwydd diffyg modd." Aneurin Bevan

Cyflwyno Gwasanaeth Iechyd Gwladol:

Ym 1910, sefydlwyd y peilot cyntaf y gwasanaeth iechyd gwladol i ymdrin â gwasanaethau twrbecwlosis (TB) yng Nghymru. Fe'i galwyd yn Gymdeithas Goffa Genedlaethol Cymru. Sefydlwyd ail a thrydydd peilot y gwasanaeth iechyd gwladol yn ystod y rhyfel byd cyntaf a'r ail ryfel byd, pan roedd rhaid i ysbytai weithio gyda'i gilydd i ymdopi â nifer y bobl a oedd wedi'u hanafu yn y rhyfel. Ar ôl yr Ail Ryfel Byd, ym 1945, fe bleidleisiodd pobl dros wasanaeth iechyd gwladol a'r wladwriaeth les ac fe sefydlodd Aneurin Bevan, a oedd yn weinidog iechyd, y GIG ym 1948



HowardCoster - Wikipedia

Rhoddodd Aneurin Bevan a Gweinidog arall, sef Harold Wilson, y gorau iddi fel ASau ar ôl i Ganghellor y Trysorlys gynnig cyflwyno costau ar gyfer gofal deintyddol a sbectols er mwyn codi arian ar gyfer Rhyfel Corea. Aeth y Llywodraeth Geidwadol newydd ymlaen i gyflwyno tâl ar bresgripsiynau hefyd yn ystod eu cyfnod wrth y llyw. Yn ddiweddarach, daeth Harold Wilson yn Brif Weinidog a dyluniodd system bresgripsiynau a oedd yn cynnwys eithriadau ar gyfer y bobl dlotaf, gan sicrhau nad oedd salwch yn arwain at galedi ariannol. Yr un blaenoriaethau a arweiniodd elusennwyr cyn y GIG. Yn ystod y 21ain ganrif, yn sgil datganoli mae Cymru wedi dychwelyd i fersiwn o GIG Bevan drwy gael gwared ar dâl ar bresgripsiynau.

HIV ac AIDS yng Nghymru

Ar ddechrau’r 1980au, cafwyd adroddiadau am afiechyd newydd yn ymddangos yn yr Unol Daleithiau. Ymddangosodd yr achosion cyntaf o AIDDS yn y DU ym 1982, a oedd yn ymwneud â marwolaeth dyn o Gymru o'r enw Terrence Higgins, yr unigolyn cyntaf i farw o salwch yn gysylltiedig ag AIDS yn y DU. Roedd oddeutu 90% o’r achosion yn effeithio ar ddynion cyfunrhywiol, gyda'r gweddill yn cynnwys pobl a oedd yn cymryd cyffuriau a'r rheini â chlefyd ceulo gwaed, haemoffilia.

Gydag ansicrwydd mewn perthynas â’r achos a’r modd yr oedd yn lledaenu, a'r arwyddion cynnar yn dangos bod AIDS yn lladd yn sydyn yn ddi-ffael, roedd yna deimlad eang o ofni’r haint. Yn ogystal, bu yna sylw mawr i’r clefyd yn y cyfryngau, a dim iachâd hysbys. Yn fuan iawn y rhoddwyd stigma mawr ynghlwm ag AIDS ac roedd yn arwydd o fyw bywyd gwyrdröedig.

Ym 1984, adnabuwyd y feirws a oedd yn achosi AIDS, a adnabyddir fel HIV. Yn fuan wedyn, cymeradwywyd y defnydd o brawf gwrthgyrff HIV yn y DU.

Ym 1987, roedd ymateb y llywodraeth i’r argyfwng yn ymgyrch addysg iechyd cenedlaethol. Fe leisiodd yr actor John Hunt hysbyseb ar y teledu gyda'r ymadrodd “if you ignore AIDS, it could be the death of you. Don’t die of ignorance.” Yn ôl y polau a ddilynodd, awgrymwyd bod gwylwyr yn teimlo’n fwy hyderus yn eu dealltwriaeth o AIDS. Wedi dweud hynny, ychydig iawn a wnaeth yr ymgyrch mewn perthynas â thawelu sïon neu addysgu a rhoi gobaith i’r rhai a oedd wedi’u heffeithio neu a oedd y mwyaf mewn risg ac fe’i beirniadwyd am beri condemniad.

Sefydlwyd Ward Broderip yn Ysbyty Middlesex yn Llundain fel ward arbenigol ar gyfer y rheini a oedd yn dioddef o HIV ac AIDS. Agorwyd y ward gan y Dywysoges Diana a ysgydwodd law â chleifion ar y ward heb wisgo menig gan ennill sylw enfawr yn y cyfryngau, a helpu i gael gwared ar rai o’r mythau a oedd yn gysylltiedig ag AIDS ar y pryd.

Gwelwyd cynnydd mawr yn nifer y marwolaethau AIDS yn y DU ar ddechrau'r 1990au. Ym 1996, cyflwynwyd therapi gwrth-retrofeirysol cryf (HAART) a oedd yn cynnwys tri chyfuniad o gyffuriau. Adferodd HAART y system imiwnedd ac atal datblygiad AIDS. Lleihaodd nifer y marwolaethau 80% rhwng 1995 a 2000. O ganlyniad, cynyddodd nifer y bobl sy’n byw gyda HIV yn sylweddol.

The Terrence Higgins Trust

Er cof am Terrence Higgins, aeth ei gyfaill a Chymro arall, Martyn Butler, ati i gyd-sefydlu’r Terrence Higgins Trust, yr elusen HIV gyntaf yn Ewrop. Dechreuwyd yr ymddiriedolaeth i ledaenu ymwybyddiaeth ac i godi arian ar gyfer gwaith ymchwil er mwyn atal dioddefaint yn sgil AIDS. Yn y dyddiau cynnar, fe wynebodd yr elusen lawer o wrthwynebiad, gyda banciau a thimau cyfreithiol yn troi eu cefn ac yn gwrthod gweithio ar achos a oedd yn cael ei ystyried yn dabŵ. Yn y diwedd, fe dalodd eu gwaith caled ar ei ganfed ac erbyn heddiw dyma elusen HIV ac iechyd rhyw flaenllaw y DU.

Spudgun67

Cyhoeddodd Cymru gynllun gweithredu HIV i Gymru 2023-2026 gan anelu at fynd i'r afael â’r stigma yr oedd y rhai yn byw gyda HIV yn dioddef ohono, ynghyd â sefydlu fframwaith ar gyfer gweithredu dros gael gwared ar achosion newydd o HIV yng Nghymru erbyn 2030.

Gofal Iechyd yn Lesotho

Bophelo bo botle

(Good Health)

Gweithiwr gofal iechyd yn diheintio ei ddwylo yn yr Uned Gofal Dwys, Lesotho. Sefydliad Iechyd y Byd,

https://creativecommons.org/licenses/by-nc-sa/3.0/igo/

Yn y gorffennol, byddai pobl Basotho yn mynd at feddygon traddodiadol pan oeddent yn sâl. Gelwir y meddygon yn lingaka tsa setso. Arferent ddefnyddio planhigion, gwreiddiau, a pherlysiau i wneud meddyginiaeth a byddent hefyd yn cael eu hymddiried i iacháu pobl gan ddefnyddio gweddi, llafargan, a defodau arbennig. Credant y gallai'r ngaka iacháu clefydau a gwarchod pobl rhag anlwc neu eneidiau drwg. Heddiw, mae'r rhan fwyaf o bobl Basotho yn mynd i glinigau ac ysbytai lle maen nhw'n gweld nyrsys a meddygon sy'n defnyddio meddygaeth fodern. Wedi dweud hynny, mae rhai pobl yn dal i ymweld â meddygon traddodiadol ar gyfer problemau
penodol, ac weithiau fe ddefnyddir y ddau fath o driniaethau gyda'i gilydd. Mae gofal iechyd modern wedi helpu nifer o bobl i fyw'n hirach a chadw'n iach, ond caiff gwybodaeth draddodiadol ei pharchu o hyd yn nifer o leoedd.

Mae nifer o bobl Basotho yn wynebu problemau gofal iechyd oherwydd diffyg cyfleusterau iechyd a hygyrchedd at driniaeth go iawn. Mewn pentrefi bach yn Lesotho, mae teuluoedd yn dibynnu ar ofalwyr lleol a chlinigau bach. Mewn trefi, mae yna fferyllfeydd a chanolfannau iechyd. Ar gyfer achosion difrifol, bydd cleifion yn mynd i ysbytai mawr, ac weithiau cânt eu cyfeirio i Bloemfontein yn Ne Affrica. Mewn ardaloedd gwledig, mae clinigau yn bell ac mae hynny'n arwain at golli bywydau, yn enwedig ymhlith merched beichiog.

Mae'r Alwys Troellog yn blanhigyn alwys prin a hyfryd a geir ym Mynyddoedd y Maluti ac mae'n rhywogaeth brin sydd wedi'i gwarchod yn y gwyllt. Mae'n nodweddiadol iawn gyda'i ddail wedi'u trefnu'n unigryw o droellog. Fel planhigion alwys eraill, mae'n cynnwys cyfansoddiadau bioactig (anthracwinon, saponin, polysacaridau) sydd â nodweddion gwrthfeicrobaidd, gwrthlidiol ac yn gallu gwella briwiau.

Mae'r sefydliadau preifat yn helpu i gyflwyno clinigau symudol er mwyn dod â gwasanaethau i bobl mewn ardaloedd anghysbell. Mae prosiect "Riders for Health" USAID yn Lesotho wedi bod yn defnyddio cerbydau modur ers tro i sicrhau bod canlyniadau profion HIV a meddyginiaethau yn cyrraedd clinigau anghysbell. Mewn ardaloedd uchel a garw lle nad oes modd teithio ar y ffordd, mae marchogion merlod yn cludo cyflenwadau rhwng canolfannau iechyd a phentrefi.

Caredigrwydd neu Undod

HIV ac AIDS yn Lesotho

Pan ddechreuodd pobl fynd yn sâl gyda HIV yn Lesotho, ychydig iawn oedd yn hysbys ynghylch y salwch. Yn yr 1900au a'r 2000au cynnar, HIV oedd y broblem iechyd fwyaf yn Lesotho. Yn sgil nifer uchel o bobl yn mynd yn sâl, tynnwyd sylw'r llywodraeth a sefydliadau fel UNICEF ac UNAID.

Roedd y camsyniad mai dim ond pobl "ddrwg" a allai gael eu heintio yn gwaethygu'r broblem gan nad oedd pobl yn fodlon trafod y peth. Wrth i bobl gael eu haddysgu am ffeithiau HIV a dysgu am ddiogelwch ac iechyd, dechreuodd clinigau gynnig profion HIV a thriniaeth o'r enw ARV am ddim, ac fe helpodd hynny pobl a oedd yn byw â HIV i fyw bywyd hirach. Bellach, gall pobl sydd â HIV fynd i'r ysgol, gwaith a chael teulu. Yn ogystal, fe wnaeth y llywodraeth, ynghyd ag UNESCO a grwpiau eraill, helpu cymunedau i sefyll yn erbyn stigma.



Mapy bydyn dangoscyffredinrwyddHIV/AIDSar draws y byd.CCBY-SA3.0

Mae cyfraddau cenedlaethol HIV yn eithaf sefydlog o gwmpas 24%, felly mae gan Lesotho yr ail gyfradd uchaf yn y byd sy'n gosod y wlad yng nghanol pandemig HIV byd-eang. Mae effeithiau HIV yn sylweddol, ac yn aml yn arwain at gymhlethdodau iechyd, fel diffyg maeth a diffyg ar allu i frwydro yn erbyn salwch cyffredin hyd yn oed. Mae'r effeithiau yn fwyaf amlwg ymhlith plant, yn enwedig y rhai hynny sy'n ieuengach na phump oed.

Lesotho

unaids.org

AIDS yw'r prif achos marwolaeth yn y wlad ac mae yna oddeutu 8,690 o blant rhwng 0-14 oed yn byw gydag HIV yn Lesotho. Amcangyfrifir bod yna tua 100,000 o blant yn blant amddifaid yn sgil AIDS. Ac mae mwy eto yn wynebu diffyg maeth o ganlyniad uniongyrchol i salwch aelod o'r teulu. Wedi dweud hynny, mae yna fentrau parhaus fel CHAI (Clinton Health Access Initiative), UNAIDS, UNICEF a grwpiau ffydd yn cefnogi mynediad at ART, lleihau stigma, rhaglenni ieuenctid, a gwasanaethau ar gyfer pobl anabl.

Dolenni Pellach

Gofal Iechyd Cymru

What Was Healthcare Like In Britain Before The NHS? | History

ExtraHow the NHS was founded in Wales in 1910 - not 1948

Aids: History Of The Epidemic That Changed Britain | History

Extra It's A Sin and HIV in the 1980s: 'By 25, I'd lost 50 friends to Aids' - BBC News

HIV in the UK – then and now | aidsmap

BBC NEWS | Programmes | Panorama | The 1980s AIDS campaign

Myths about HIV | Terrence Higgins Trust

Public attitudes on HIV stuck in 1980s | Terrence Higgins Trust

Gofal Iechyd Lesotho

The ‘calling’ for Basotho traditional healers

BBC NEWS | World |Africa | Lesotho's club for job-seekers with HIV

Lesotho MakesSignificant Progress against HIV

BBC NEWS |World | Africa | Lesotho Aids diary: OrphanAn

Overview of the Healthcare System in Lesotho

The Role of Lesotho in Traditional Medicine Practices

Band Aid

Newyn yn Ethiopia

Rhwng 1983-1985, bu sychder a newyn eang yn Ethiopia. Amcangyfrifir bod nifer y marwolaethau yn sgil y newyn rhwng 400.000 ac 1 miliwn. Honnwyd bod polisïau llywodraeth Ethiopia ar y pryd wedi cyfrannu at raddfa'r newyn, gorfododd lywodraeth Mengistu bolisïau amaethyddol yn ymwneud â chyfunoli ac ail-leoli gorfodol (symud cymunedau i bentrefi wedi'u cynllunio).

Daeth y newyn i sylw nifer o bobl yn y gorllewin drwy gyfres o adroddiadau newyddion gan y BBC wedi'u cyflwyno gan y newyddiadurwr Michael Burke a ddarlledwyd ym mis Hydref 1984. Disgrifiodd yr adroddiadau "newyn Beiblaidd" ac roedd yn cynnwys delweddau trawiadol o filoedd o bobl Ethiopia yn cynnwys plant yn wynebu diffyg maeth ac yn llwgu. Yn y DU, ymatebodd y cerddorion Bob Geldof a Midge Ure i'r darlleniadau drwy ffurfio Band Aid, grŵp elusennol mawr i godi arian at waredu'r newyn yn Ethiopia.

JFK Stadium Live Aid 1985https://creativecommons.org/licenses/by-sa/3.0/deed.en

Aeth pedwar deg o artistiaid ati i recordio'r gân elusennol "Do they know it's Christmas?" a ryddhawyd ym 1984, gyda'r fideo ar gyfer y record yn defnyddio delweddau yn dangos golygfeydd ystrydebol o dlodi yn Affrica ac fe gyrhaeddodd y gân rif un yn y siartiau. Amcangyfrifir bod y gân wedi codi £8 miliwn.

Ym 1985, parhaodd Band Aid i godi arian drwy lwyfannu cyngherddau Live Aid yn Wembley, Llundain, stadiwm John F Kennedy, Philadelphia a sawl lleoliad arall. Darlledwyd y cyngherddau ac amcangyfrifir bod yna 1.5 biliwn o bobl wedi'u gwylio. Canmolwyd hyn am godi ymwybyddiaeth fyd-eang ac fe ail-recordiwyd y gân deirgwaith gan gyrraedd brig y siartiau gyda Band Aid II (1989), Band Aid 20 (2004) a Band Aid 30 (2014).

https://youtu.be/RH-xd5bPKTA?si=F1Ux2nNMz05UI7mJ

Credir mai Paula Yates (partner Geldof) oedd wrth wraidd y Band Aid gwreiddiol. Daeth enw'r grŵp o'r syniad bod y cerddorion yn darparu cymorth i'r rhai llai ffodus ac awgrymwyd bod eu prosiect fel rhoi plastr ("band-aid") ar friw. Rhoddodd Geldof ei air y byddai pob ceiniog yn mynd at yr achos. Arweiniodd hyn at sefyllfa anodd rhwng Llywodraeth Prydain a oedd yn gwrthod ildio'r TAW ar werthiannau'r gân, ac fe gyrhaeddodd Geldof frig y penawdau gan sefyll yn erbyn y Prif Weinidog,

Margaret Thatcher. Ym 1985, cytunodd y llywodraeth i wneud cyfraniad ariannol cyfwerth â'r TAW a gasglwyd ar werthiannau'r gân wreiddiol at elusennau yn gweithio yn Ethiopia.

Caredigrwydd neu Undod

Beirniadaeth o Band Aid

Ym 1986, fe ryddhaodd y band anarchydd Chumbawamba yr albwm “Pictures of starving children sell records” a’r bwriad oedd gwneud beirniadaeth wrth-gyfalafol o ffenomenon Band Aid. Dadleuant mai rhywbeth cosmetig oedd y gân yn bennaf, wedi’i dylunio i dynnu sylw oddi ar wir achos gwleidyddol newyn byd-eang. Fe’i beirniadwyd hefyd am bortreadu newyn Ethiopia fel trychineb naturiol ac am dynnu'r wleidyddiaeth o achosion newyn.

Gwrthododd y canwr, ysgrifennwr caneuon a’r rapiwr Saesneg-Ghanaidd, Fuse ODG, gymryd rhan yn Band Aid 30 gan ddadlau ei fod yn dad-ddynoli Affricanwyr ac yn tanseilio eu hymdeimlad o falchder a hunaniaeth dan wisg elusen. Mae’n un o nifer o bobl sydd wedi dweud bod geiriau'r gân yn dangos anwybodaeth. Dywedodd ODG yn ddiweddar er bod y gân yn denu cydymdeimlad a chyfraniadau ariannol, ei bod yn cyflwyno ystrydeb niweidiol am byth sy’n mygu twf economaidd, twristiaeth a buddsoddiad yn Affrica. Drwy ddad-ddynoli delweddau, mae’r mentrau hyn yn sbarduno tosturi yn hytrach na phartneriaeth, gan atal ymgysylltiad ystyrlon.

Yn 2017, dyfarnwyd gwobr Rusty Radiator SAIIH i’r fideo am yr ymgyrch mwyaf tramgwyddus ac fe’i disgrifiwyd fel twristiaeth dlodi sy’n atgyfnerthu ystrydebau gwaredwyr. Dywedodd Lena Bheeroo, pennaeth gwrth-hiliaeth a chydraddoldeb yn y corff ymbarél anllywodraethol Bond, ei fod yn peryglu dad-wneud y cynnydd sydd wedi’i wneud gan y sector datblygu a dynoliaeth rhyngwladol i roi’r pŵer i gymunedau lleol a mynd i’r afael ag anghyfiawnder parhaus gwladychiaeth a hiliaeth systemig.

Dywedodd Matt Wenham, cyfarwyddwr codi arian yn y corff anllywodraethol Amref Health Africa yn Kenya, fod Band Aid yn enghraifft bwysig o berygl un stori sy’n creu safbwynt bythol o Affrica ac Affricanwyr sydd â diffyg ystyr gan ei bod wedi’i datblygu gan bobl yn y DU. Gwyddom nad oes angen i weithgareddau codi arian ddibynnu ar naratifau hen ffasiwn a niweidiol. Bedwar deg mlynedd yn ddiweddarach, dylem fod yn gwneud pethau’n wahanol.

Fuse ODG, https://creativecommons.org/licenses/by/2.0

Newid y naratif

Er ei fod yn dod o le da, mae Band Aid wedi cyfrannu at naratif sy’n disgrifio Affrica fel gwlad anobeithiol, yn llawn clefydau a thlodi ac sydd angen cymorth gan y gwledydd dwyreiniol. Yn ffodus, mae mentrau fel Pledge for Change 2030 yn anelu at newid hyn drwy ddatblygu ecosystem yn seiliedig ar undod, gostyngeiddrwydd, hunan-benderfynoldeb a chydraddoldeb. Cyhoeddodd Bond ail rifyn o ganllawiau adrodd straeon y mae nifer o sefydliadau yn y sectorau cyrff anllywodraethol yn gweithio i newid y pŵer ac adnoddau tuag at y rheini sy’n gweithredu dros y byd a datblygiad wedi’i arwain yn lleol.

Dolenni Pellach

https://youtu.be/wZVqQBIcSiw



https://youtu.be/oJLqyuxm96k?si=QrMGu43GojtUdrA8

In-depth: Is Band Aid good or bad for the charity sector?

Negative images from Band Aid did 'more bad than good' for Africa, rapper Fuse ODG tells... - LBC

Are the Band Aid lyrics really that controversial? - BBC Newyddion

Ethiopia: Conflict and food insecurity 40 years on from the 1984 famineHouse of Lords Library

Pledge for Change – | Home

Podlediadau



Dolen LESOTHO CYMRU

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

9 Taith

Dolen LESOTHO CYMRU

Taith

Dysgu ar y Cyd, Gwella ar y Cyd

Mae'r adnoddhwn yn cael ei ddatblygu drwy brofiadau cyffredin. Sganiwch i helpu i lywio'r rhifyn nesaf.

Arolwg adborth